## Awdurdod Parc Cenedlaethol

### 05 Chwefror 2025

**Yn bresennol (o bell)**
Cynghorydd D Clements (Cadeirydd)
Cynghorydd M Bowen, Cynghorydd T Evans, Cynghorydd C George, Cynghorydd SL Hancock MBE, Dr M Havard, Dr R Heath-Davies, Mrs J James, Cynghorydd M James, Mr GA Jones, Cynghorydd B Price, Cynghorydd S Skyrme-Blackhall, Cynghorydd A Tinley, Cynghorydd V Thomas, Cynghorydd M Wiggins a'r Cynghorydd C Williams BEM.

**Hefyd yn bresennol:**
Tim Buckle (Archwilio Cymru), Catrin Evans (Pennaeth Cyllid a Chodi Arian), Georgia Jones (Swyddog Gwasanaethau Democrataidd), Tegryn Jones (Prif Weithredwr), Michael Kent (Swyddog Monitro), Caroline Llewellyn (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd), James Parkin (Cyfarwyddwr Adfer Natur a Thwristiaeth), Alison Rees (Archwilio Cymru), Libby Taylor (Pennaeth Ymgysylltu a Chynhwysiant), a Mair Thomas (Swyddog Perfformiad a Chydymffurfiaeth).

[Ymunodd y Cynghorydd C Williams â'r cyfarfod adeg y drafodaeth ar eitem 4, Log Gweithredu a Materion yn Codi. Ymunodd y Cynghorydd B Price â’r cyfarfod cyn ystyried adroddiad 01/25, Archwilio Mewnol ar Amcanion Llesiant.]

[Cyfarfod Ar-lein, 10.00am – 11.52am]

**1. Ymddiheuriadau**
Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth Mrs S Hoss a Dr R Plummer.

**2. Datgan Buddiannau**
Gwnaeth y Cynghorydd B Price ddatganiad o fuddiant yn adroddiad 04/25, Cyllid Croeso Sir Benfro.

**3. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr 2024 i’w cadarnhau a’u dilysu.

Dywedodd Aelod, o ran cofnod 15, bod 4 Aelod mewn gwirionedd wedi'u penodi ar Grŵp Rhanddeiliaid Oriel y Parc: y Cynghorydd S Hancock a Dr M Havard fel cynrychiolwyr, a'r Cynghorydd T Evans a G Jones fel dirprwyon.

Ar gynnig y Cynghorydd D Clements, a eiliwyd gan y Cynghorydd M Havard, **penderfynwyd** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr 2024 yn amodol ar y newid uchod.

**4. Log Gweithredu a Materion yn Codi**

Yn dilyn trafodaeth yn y cyfarfod blaenorol, gofynnodd Aelod am ddiweddariad ar recriwtio Aelodau Llywodraeth Cymru. Rhoddodd y Prif Weithredwr grynodeb byr o amserlen ddiweddaraf y recriwtio a'r cyd-destun oedd yn egluro achos yr oedi.

Cododd Aelod y mater o hawlio costau teithio gan yr Aelodau sy’n defnyddio cerbydau trydan a’r diffyg eglurder ynghylch y broses. Cytunodd y Prif Weithredwr y byddai’r swyddogion yn ymchwilio ymhellach i'r mater drwy gysylltu ag Awdurdodau Parciau Cenedlaethol eraill i ddeall arfer gorau.

Nodwyd nad oedd camau pellach wedi’u cymryd o ran cam gweithredu 982, i gynnwys mesurau meintiol yn y Cynllun Rheoli Datblygu, a gofynnodd yr Aelodau am ddiweddariad. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Adfer Natur a Thwristiaeth bod is-grwpiau thematig wedi'u sefydlu ond bod Croeso Sir Benfro wedi'i chael hi'n anodd dod o hyd i wirfoddolwyr i arwain rhai o'r grwpiau. Ychwanegodd mai'r gobaith oedd y byddai'r is-grwpiau yn gweithredu yn y dyfodol agos, ac yn dilyn hynny y byddai'r cam gweithredu uchod yn derbyn sylw.

**Nodwyd.**

**5. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**

Dywedodd y Cadeirydd bod y mis diwethaf wedi bod yn dawel o ran cyfarfodydd a digwyddiadau ond ei bod hi wedi mynychu Brecwast Ffermdy yr FUW oedd wedi codi arian i Ambiwlans Awyr Cymru.

Dywedodd y Dirprwy Gadeirydd ei bod wedi mynychu cyfarfod o Bwyllgor Ynni y Cyd-bwyllgor Corfforaethol yn ddiweddar, a rhoddodd grynodeb o'r uchafbwyntiau i'r Aelodau.

Manteisiodd y Prif Weithredwr ar y cyfle i hysbysu'r Aelodau bod ardoll newydd a bennwyd gan y Cyd-bwyllgor Corfforaethol wedi dod i rym i’r Awdurdod mewn perthynas â Chynllunio. Ychwanegodd bod awdurdodau cyfansoddol y De Orllewin wedi cael ardoll yn ôl eu poblogaethau.

**Nodwyd.**

**6. Adroddiadau o gyfarfodydd amrywiol Bwyllgorau'r Awdurdod**

Cyflwynwyd yr adroddiadau canlynol o gyfarfodydd nifer o Bwyllgorau’r Awdurdod i’r Aelodau eu hystyried:

i) Y Pwyllgorau Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 04/12/24 ac ar 20/01/25.
ii) Y Pwyllgor Grantiau a gynhaliwyd ar 18/09/24.
iii) Y Pwyllgor Gwasanaethau Pobl a gynhaliwyd ar 18/09/24.
iv) Y Pwyllgor Adolygu Gweithredol a gynhaliwyd ar 25/09/24.
v) Y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 13/11/24.

**Penderfynwyd** derbyn cofnodion y Pwyllgorau uchod.

**7. Archwilio Mewnol ar Amcanion Llesiant**

Croesawodd y Cadeirydd Tim Buckle ac Alison Rees o Archwilio Cymru a gyflwynodd adroddiad Archwilio Cymru ar Osod Amcanion Llesiant. Dywedwyd bod Archwilio Cymru wedi bod yn cynnal archwiliadau perfformiad, ac fel rhan o raglen astudiaethau llywodraeth leol yr Archwilydd Cyffredinol yn 2022/23, roedd Archwilio Cymru wedi adolygu'r trefniadau llywodraethu ar draws Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru gan ganolbwyntio ar osod, cyflawni a monitro eu hamcanion llesiant. Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r materion a ystyriwyd fel rhan o'r adolygiad, y canfyddiadau, yr argymhelliad gan Archwilio Cymru o ganlyniad i'r adolygiad, ac ymateb arfaethedig y sefydliad yn dilyn yr adolygiad ar gyfer yr Awdurdod.

Mewn ymateb i ymholiad gan yr Aelodau, cadarnhaodd Tim Buckle bod y ffi am gynnal yr Archwiliad o'r Amcanion Llesiant wedi'i ymgorffori yn y ffi archwilio perfformiad cyffredinol ac na fyddai unrhyw daliad ychwanegol yn ofynnol am y gwaith.

Ar gynnig y Cynghorydd SL Hancock MBE, a eiliwyd gan Mrs J James, **penderfynwyd**;

i) bod yr Aelodau yn derbyn adroddiad Archwilio Cymru ar Osod Amcanion Llesiant,
ii) cytuno ar ymateb y sefydliad.

**8. Ardoll Cyngor Sir Penfro (CSP).**

Roedd y Pennaeth Cyllid a Chodi Arian wedi cyflwyno adroddiad oedd yn gofyn am gymeradwyaeth yr Aelodau i osod ardoll o £1,137,195 i Gyngor Sir Penfro am y flwyddyn ariannol 2025-2026. Dywedwyd ei bod yn ofynnol i'r Awdurdod gyflwyno'r llythyr ardoll a gymeradwywyd i Gyngor Sir Penfro erbyn y 15fed o Chwefror 2025. Yn ogystal, dywedodd y Swyddog bod cynnydd o £53,866 yn yr ardoll o gymharu â'r flwyddyn flaenorol oherwydd y cynnydd yng nghyllid Grant Parc Cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru oedd yn sail i gyfrif swm yr ardoll.

Ar gynnig y Cynghorydd D Clements, a eiliwyd gan Dr R Heath-Davies, **penderfynwyd**;

i) cymeradwyo swm yr ardoll a gyfrifwyd am 2025-2026,
ii) awdurdodi cyhoeddi'r llythyr ardoll i Gyngor Sir Penfro am y swm o £1,137,195,
iii) bod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol yn parhau â'r trefniant presennol o 12 rhandaliad misol cyfartal sydd i'w dderbyn ar neu cyn y 12fed o bob mis calendr, i'w derbyn drwy drosglwyddiad banc.

**9. Cynllun ac Amcanion Cydraddoldeb**

Cyflwynodd y Swyddog Perfformiad a Chydymffurfiaeth adroddiad oedd yn ceisio cymeradwyaeth yr Aelodau i Gynllun ac Amcanion Cydraddoldeb yr Awdurdod am y cyfnod 2025-2029. Dywedwyd bod y cynllun drafft wedi'i gyflwyno i'r Aelodau am eu sylwadau yng nghyfarfod yr Awdurdod fis Medi 2024 ac o ganlyniad i farn yr Aelodau ac adborth yr ymgynghori, roedd y cynllun wedi'i ddiweddaru.

Nodwyd bod y Cynllun yn cynnwys adran ar yr Iaith Gymraeg, a gofynnodd Aelod am i ddatganiad ar ddull croestoriadol gael ei gynnwys, a chytunodd y Swyddog i wneud hynny.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â pha mor hygyrch yw'r Parc Cenedlaethol, a dywedodd Aelod bod angen rhagor o negeseuon i gyfleu bod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn Barc i bawb. Cadarnhaodd y swyddogion bod yr Awdurdod yn mynd ati i hyrwyddo negeseuon i amlygu bod y Parc yn Barc i bawb ei fwynhau, yn ogystal â bod yr Awdurdod yn cynnal nifer o brosiectau hygyrchedd, a nod y Swyddogion yw gweithio gydag Ymgynghorydd Strategol fel rhan o Tirweddau Cymru i ddatblygu ymhellach ddulliau'r Awdurdod o gyfathrebu ynghylch hygyrchedd. Bu'r Aelodau yn trafod ffyrdd y gallai'r Awdurdod gyrraedd gwahanol grwpiau o fewn cymunedau, a pha mor bwysig yw deall y gwahanol rwystrau sy'n effeithio ar hygyrchedd y Parc Cenedlaethol.

Ar gynnig Mrs J James, a eiliwyd gan y Cynghorydd M Bowen, **penderfynwyd**;
i) cymeradwyo Cynllun ac Amcanion Cydraddoldeb yr Awdurdod am y cyfnod 2025-2029 drwy ychwanegu'r sylwadau uchod,
ii) rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Swyddogion ymgorffori yn ôl yr angen unrhyw fân newidiadau megis gwallau teipio.

**10. Cyllid Croeso Sir Benfro**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad oedd yn gofyn am gytundeb yr Aelodau i roi cyfraniad arian parod o £25k i Croeso Sir Benfro am y flwyddyn ariannol 2025-26, yn hytrach na chyfraniad mewn da. Dywedwyd bod Croeso Sir Benfro wedi gwneud cynnydd cadarnhaol o ran datblygu ei sylfaen aelodaeth, ac y byddai adolygiad pellach yn cael ei gynnal ynghyd â thrafodaethau gyda phartneriaid eraill ynghylch cyllido yn y dyfodol.

Nodwyd bod yr Awdurdod wedi cytuno fis Chwefror 2020 i gefnogi Croeso Sir Benfro am gyfnod o 5 mlynedd, a 2025 yw'r 5ed flwyddyn o gymorth. Cytunodd yr Aelodau y byddai angen gwneud dadansoddiad cost a budd yn y flwyddyn sydd i ddod i gynorthwyo'r Aelodau mewn trafodaethau yn y dyfodol ynghylch ariannu Croeso Sir Benfro yn y dyfodol. Bu'r Aelodau yn trafod sefyllfa ariannol yr Awdurdod a pha mor gynaliadwy yw Croeso Sir Benfro fel sefydliad.

Ar gynnig Dr M Havard, a eiliwyd gan Dr R Heath-Davies, **penderfynwyd** rhoi cyfraniad ariannol o £25k i Croeso Sir Benfro am y flwyddyn ariannol 2025-26, a chynnal dadansoddiad cost a budd.

**11. Calendr Cyfarfodydd**

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd adroddiad oedd yn amlinellu'r calendr cyfarfodydd arfaethedig am 2025/26. Cadarnhaodd y Swyddog, ers cyhoeddi'r adroddiad, bod dau newid wedi'u gwneud i'r calendr: gan fod dyddiad Seminar Aelodau Cymru wedi'i gadarnhau ar y 1af a'r 2ail o Hydref 2025, ni fyddai gweithdy bellach ar y 1af a byddai'r Panel Prif Weithredwr ar y dyddiad hwnnw yn cael ei aildrefnu maes o law.

Ar gynnig Mrs J James, ac eiliwyd gan Mr G Jones, **penderfynwyd** cymeradwyo'r calendr cyfarfodydd 2025/26.

**12. Polisi Diogelu**

Cyflwynodd y Pennaeth Ymgysylltu a Chynhwysiant y Polisi Diogelu diwygiedig ar gyfer Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, a thynnodd sylw at y newidiadau a wnaed ers y tro diwethaf i'r polisi gael ei gyflwyno gerbron yr Aelodau.

Diolchodd yr Aelodau i'r Swyddogion am eu gwaith yn diweddaru'r datganiad yn dilyn adborth yr Aelodau. O ran yr adran ar y canllawiau ar gludo plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed, roedd Aelod wedi awgrymu geiriad arall i'w gynnwys, a nodwyd hyn gan y Swyddog.

Ar gynnig Mrs J James, a eiliwyd gan Dr R Heath-Davies, **penderfynwyd** cytuno ar gynnwys y polisi diwygiedig, yn amodol ar yr awgrymiadau uchod.

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn (cyn belled ag y cynhwysir y newidiadau sy'n dilyn) yng nghyfarfod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol a gynhaliwyd ar 26/03/2025: Yng nghofnod 3 dylid fod wedi nodi enw M Havard yn gywir fel 'Dr M Havard'. |